

Mentora Amlieithog
Multilingual Mentoring

Pearson
Edexcel

# Mwy na geiriau:
## Straeon Bywyd Go Iawn

1. **Beth yw dy enw a pha gwrs wyt ti'n astudio?**
   Maryam Awawdeh, PhD Dwyieithrwydd.

2. **Pa ieithoedd wyt ti'n siarad, sydd o ddiddordeb i ti, neu rwyt ti'n ymwneud â nhw mewn unrhyw ffordd?**
   Fe ges i fy ngeni a'm magu yng Ngorllewin Lloegr i rieni sy'n siarad Arabeg, felly dwi'n siarad Arabeg gartref a Saesneg yn yr ysgol. Fe wnes i Ffrangeg TGAU ond wedyn penderfynais fynd i Brifysgol Almaenaidd-Iorddonaidd (yn Iorddonen) lle dysgais i Almaeneg. Ar hyn o bryd, dwi'n dysgu Sbaeneg a Chymraeg yn y brifysgol ac yn gwneud Doethuriaeth mewn Dwyieithrwydd.

3. **Ar ba adeg yn dy fywyd sylweddolaist ti pa mor bwysig a pha mor werthfawr yw gwybod mwy nag un iaith?**
   O oedran ifanc; dwi wastad wedi caru ieithoedd a fy uchelgais ydy dod yn amlieithydd. Gall gwybod llawer o ieithoedd agor cymaint o ddrysau i ti.

4. **Sut mae gallu siarad mwy nag un iaith wedi dy helpu yn dy fywyd personol?**
   Fel Mwslim, mae deall Arabeg yn hollbwysig i feithrin cysylltiad ysbrydol â Duw gan fod y Quran a'r weddi yn yr iaith Arabeg.

5. **Sut mae gwybod mwy nag un iaith wedi dy helpu, neu sut bydd yn helpu, yn dy fywyd proffesiynol?**
   Yn broffesiynol, mae wedi agor y drws i mi wneud PhD mewn Dwyieithrwydd. A minnau'n ddwyieithog fy hun, galla i ddefnyddio fy sgiliau a'r profiadau dwi wedi'u cael i wella fy ngwaith ymchwil.

6. **Beth wyt ti'n gobeithio ei wneud fel gyrfa/gyrfaoedd yn y dyfodol?**
   Darlithydd mewn Dwyieithrwydd.

[www.mflmentoring.co.uk](http://www.mflmentoring.co.uk)
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

7. **O ran dysgu ieithoedd, beth sydd wedi cael y dylanwad mwyaf ar dy fywyd hyd yn hyn?**
Mae dysgu ieithoedd wedi fy helpu i gyfathrebu â phobl o wahanol ddiwylliannau a gwledydd.

8. **Beth fu'r fantais fwyaf annisgwyl o ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
Y gallu i ryngweithio a chreu perthynas gyda phobl o wahanol gefndiroedd sy'n siarad ieithoedd eraill.

9. **Beth fu'r agwedd fwyaf heriol am ddysgu ieithoedd yn ystod dy fywyd?**
Bod yn gyson a dal ati i ymarfer yr iaith er mwyn peidio â'i hanghofio. Hefyd, mae rheolau ynganu a gramadeg yn gallu bod yn heriol.

10. **Beth yw dy hoff air neu ymadrodd mewn iaith heblaw Saesneg?**
"*InshAllah*" – mae'n ymadrodd Arabeg o'r Quran ac mae'n golygu "yn ôl ewyllys Duw". Rydyn ni'n ei ddefnyddio unrhyw adeg rydyn ni'n bwriadu gwneud rhywbeth, oherwydd dim ond os ydy Duw am i rywbeth ddigwydd fydd e'n digwydd.

11. **Hoffet ti siarad unrhyw ieithoedd eraill?**
Hoffwn i siarad Japanaeg. Dwi'n caru'r bwyd a byddwn i wrth fy modd yn ymweld â Japan ac archebu bwyd mewn Japanaeg.

12. **Sut mae bod yn Fentor ITM wedi cefnogi dy daith gydag ieithoedd?**
Dwi wedi gallu rhannu fy nhaith iaith i gyda myfyrwyr sydd eisiau dysgu ieithoedd, ond dwi hefyd wedi dysgu ychydig o bethau gan y myfyrwyr a'u cyflwyniadau.

13. **Oes unrhyw berson neu unrhyw eiliad neu unrhyw beth penodol wedi dy ysbrydoli di ar dy daith i ddysgu iaith?**

[www.mflmentoring.co.uk](www.mflmentoring.co.uk)
**Trydar:** @MFLMentoring
**Instagram:** @MFLMentoring
**LinkedIn:** Mentora ITM

I gael mwy o wybodaeth, ewch i:
**go.pearson.com/MFLGCSE24**

Mentora Amlieithog
Multilingual Mentoring

Pearson
Edexcel



Y manteision o wybod mwy nag un iaith – cyfathrebu, teithio a’r manteision gwybyddol.

14. **Oes gen ti straeon doniol i'w rhannu am dy brofiadau dysgu iaith?**
    Yn Saesneg, bydden ni’n dweud "Dwi’n gwisgo colur" felly pan oeddwn i’n siarad â ffrind yn Arabeg, fe wnes i ddweud dwi’n gwisgo colur. OND yn Arabeg, dydy hynny ddim yn gwneud synnwyr: y ferf fyddai "rhoi" felly dylwn i fod wedi dweud "Dwi’n rhoi colur" nid "Dwi’n gwisgo colur". Roedd hon yn wers ddoniol i fi.

15. **Pe gallet ti roi un darn o gyngor i fyfyrwyr sy'n meddwl am ddysgu iaith arall, beth fyddai hynny?**
    Cofiwch ymarfer yn gyson. Hyd yn oed dim ond am bum munud y dydd, gwnewch rywbeth sy'n gysylltiedig â dysgu iaith – fel dysgu gair newydd ar eich cof, neu wrando ar fideo, cân neu bodlediad yn yr iaith arall.